


Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau Mannau Agored

Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Chwefror 2021



G.B. Edwards BEng (Anrh) CEng FICE
Pennaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau
Swyddfeydd Mochdre, Conway Road,
Mochdre, Bae Colwyn,
LL28 5AB.

Rhif Ffôn. (01492) 574000

affch@conwy.gov.uk

Mynegai

Crynodeb Gweithredol	6
1 Cyflwyniad	8
2 Cefndir Conwy a phroses y CGHT	10
3 Datganiad Gweithredu	17
4 Y camau nesaf.....	25
5 Adolygiadau ac Adroddiadau	25
6 Adrodd ar gynnydd.....	26
7 Atodiadau	28

Cofnod Cyhoeddi ac Adolygu

Teitl y Ddogfen	Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2019-2029
-----------------	---

Adolygu	Nodiadau	Dyddiad

	Enw	Dyddiad
Paratowyd gan:	Victoria Currie	28/06/2018
Gwiriwyd gan	Simon Billington	30/12/2020
Cymeradwywyd gan	Y Cabinet	23/02/2021

Rhestr Ffigurau

Ffigur 1 Ffiniau Awdurdodau Lleol yng Nghymru.....	10
Ffigur 2 Cymariaethau Oed Conwy, Cymru a Lloegr	11
Ffigur 3 Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yng Nghonwy	12
Ffigur 4 Siart lif ar gyfer adolygu'r CGHT.....	13
Ffigur 5 Categori Hawliau Tramwy Cyhoeddus yng Nghonwy	Error! Bookmark not defined.
Ffigur 6 Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yng Nghonwy	30
Ffigur 7 Llwybr hygyrch ar Drwyn y Fwch.....	32
Ffigur 8 Llwybr hygyrch yn Llyn Brenig.....	32

Rhestr Tablau

Tabl 1 Amserlen ar gyfer Adolygiad CGHT Conwy.....	14
Tabl 2 Ffigurau Dangosyddion Perfformiad ar gyfer Llwybrau Hawdd eu Defnyddio yng Nghonwy.....	34
Tabl 3 Sut mae CGHT Conwy yn cysylltu â Chynlluniau eraill.....	44


Rhestr Termau a Byrfoddau

Term	Diffiniad / Ystyr
DPGG	Dangosydd Perfformiad Gwerth Gorau
CBSC	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
CCGC	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
CEDLAF	Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych
CELAF	Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy
DCGHT	Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
Diff	Diffiniol
GAMD	Gorchymyn Addasu Map Diffiniol
'Hawdd eu Defnyddio'	Llwybrau sydd o fewn y meini prawf a osodwyd gan Set Dangosyddion Craidd a Strategol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru Cyf 6.1
FTE	Cyferwerth â Llawn Amser
KM	Cilometr
BGLI	Bwrdd Gwasanaethau Lleol

Term	Diffiniad / Ystyr
GDC	Gorchymyn Digwyddiad Cyfreithiol
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
'Rhwydwaith'	Rhwydwaith hawliau tramwy Bwrdeistref Sirol Conwy
ONS	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
BGC	Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
HT	Hawliau Tramwy
CGHT	Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Conwy
CLG	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
APCE	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
SoNaRR	Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol
LIC	Llywodraeth Cymru
WCAIP	Rhaglen Gwella Mynediad i Arfordir Cymru

Mae dros ddegawd wedi bod ers y cyflwynwyd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Rydym wedi gweld llawer o newidiadau yn y cyfnod hwn, yn arbennig yn y ffordd y mae pobl yn gweld ymarfer corff a hamdden awyr agored fel elfennau allweddol i wella iechyd y genedl. Mae teithio o fewn y sir a mynediad at yr awyr agored wedi cael ei gefnogi gan nifer o newidiadau mewn deddfwriaeth. Mae'r llwybrau teithio llesol a gyflwynwyd yn ddiweddar yn ychwanegu gwell cyfleoedd at y llwybrau beicio a'r llwybrau cerdded arfordirol presennol. Mae'r nifer cynyddol o hawliau tramwy sydd ar gael a'r mynediad y maent yn ei gynnig i bawb yn fantais i iechyd a hamdden yn ein cymuned.

Mae'n wych gweld twf yn y grwpiau gwirfoddol sy'n hyrwyddo ymarfer corff iach yn ogystal â chyfranogiad gwirfoddolwyr sy'n cyfrannu at wella ein hamgylchedd i bawb ei fwynhau. Roedd y gwaith paratoi sylfaenol wedi'i sefydlu yn 2008, felly mae'r cynllun newydd hwn yn gwneud camau cadarnhaol ymlaen dros y degawd nesaf.



Crynodeb Gweithredol

Yn y flwyddyn 2000, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gynhyrchu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT). Nod y cynllun oedd disgrifio lefelau presennol y mynediad i lwybrau troed, llwybrau ceffylau, cilffyrdd ac ardaloedd eraill o fannau agored, a dangos sut y byddai mynediad yn cael ei wella dros y 10 mlynedd nesaf. Mae'r cyfnod hwnnw bellach yn dod i ben ac mae gan bob Awdurdod Lleol gyfrifoldeb i adolygu'r Cynllun gwreiddiol gyda'r nod o'i ddiwygio neu ei adnewyddu ar gyfer y 10 mlynedd nesaf.

Fel rhan o'r adolygiad, rydym wedi dadansoddi sut y gwnaethom berfformio yn erbyn y targedau yr oeddem wedi'u gosod ar ein cyfer ein hunain. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Atodiad 7 y ddogfen. Cwblhawyd nifer o'r tasgau yn ystod oes y Cynllun, megis cynhyrchu polisïau a gweithdrefnau newydd a gweithredu system i gofnodi ceisiadau cwsmeriaid. Ni ddechreuwyd ar rai o'r targedau oherwydd diffyg adnoddau ac mae nifer o'r targedau yn rai parhaus, megis gwella wyneb llwybrau, cydgrynhoi'r Map a'r Datganiad Diffiniol a gwella cyflwr dodrefn. Yn ystod adolygiad o Gynllun 2008-2018, ystyriwyd a oedd y targedau hyn yn parhau i fod yn berthnasol ac a fyddai eu hangen fel rhan o sylfaen y Cynllun newydd.

Gwnaed penderfyniad bod y Cynllun angen ei adnewyddu gan y bu newidiadau sylweddol yn y modd y rheolir Hawliau Tramwy Cyhoeddus yng Nghonwy ac i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth, lefel yr adnoddau a'r canllawiau ers y Cynllun diwethaf.

Mae'r cynllun newydd wedi'i lunio yng nghyd-destun llai o adnoddau a cholled cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru (grant a oedd yn gyfanswm o £550,434.14 dros y ddegawd flaenorol). Mae'r Cynllun yn cynnwys Datganiad Gweithredu sy'n cynnwys 5 prif amcan. Fel rhan o bob amcan mae yna bynciau a thasgau penodol i helpu cadw'r Cynllun ar y trywydd cywir.

• Amcan 1 – Sicrhau bod y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ar agor ac ar gael i'w ddefnyddio

- 1.1 Arolygon – cynnal arolygon gan ddefnyddio myfyrwyr a'r gwaith a wnaed o fewn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gan Wardeiniaid APCE.
- 1.2 Dewisiadau Lleiaf Cyfyngol – Annog perchnogion tir i ddewis y dewisiadau lleiaf cyfyngol
- 1.3 Arolygu Llwybrau a Hyrwyddir – arolygu'r llwybrau a hyrwyddir yn flynyddol
- 1.4 Clirio Llystyfiant Wyneb – Archwilio'r potensial i gael grwpiau gwirfoddol i helpu gyda'r gwaith hwn
- 1.5 Gweithio mewn partneriaeth ag APCE o fewn y CLG.
- 1.6 Cynnal a chadw a Gorfodi

• Amcan 2 – Darparu Map a Datganiad Diffiniol cyfredol a sicrhau ei fod ar gael i bawb

- 2.1 Cydgrynhoi'r Map – Map a Datganiad wedi'u diweddarau ac yn cael eu cynhyrchu bob 5 mlynedd
- 2.2 Datganiad o Flaenoriaethau – Adolygu ein blaenoriaethau a'n polisïau
- 2.3 Cynnal map digidol ar-lein – Archwilio'r potensial i gynnwys rhagor o wybodaeth am y llwybrau

• **Amcan 3 – Darparu rhwydwaith diogel, hygrych sydd wedi'i gyd-gysylltu'n well ac yn addas ar gyfer pob defnyddiwr**

- 3.1 Teithio llesol – Sicrhau bod llwybrau newydd yn rhesymegol ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda
- 3.2 Llwybrau beicio – Ceisio cyllid i wella ymylon ffyrdd ar gyfer beicwyr
- 3.3 Gwella wynebau – Cynnal a chadw wynebau llwybrau at safon addas
- 3.4 Gwelliannau i bontydd – Darparu gwybodaeth lle bo pontydd sydd ar gau yn rhwystro mynediad
- 3.5 Cysylltiadau gyda Llwybr yr Arfordir - Archwilio cysylltiadau ychwanegol gyda chymunedau lleol a llwybrau eraill

• **Amcan 4 - Hyrwyddo'r rhwydwaith yn well a gwella'r ddealltwriaeth a'r defnydd ohono**

- 4.1 Gwell gwybodaeth wedi'i thargedu ar y rhyngwyd – Darparu rhagor o wybodaeth am y llwybrau a hyrwyddir
- 4.2 Hyrwyddo teithiau cerdded a gwyliau – Cefnogi grwpiau gwirfoddol yng Nghonwy

• **Amcan 5 – Annog mwy o ymgysylltiad cymunedol wrth reoli hawliau tramwy lleol**

- 5.1 Cynllun Cynnal a Chadw Cymunedol – Hyrwyddo'r cynllun i'r Cynghorau Tref a Chymuned
- 5.2 Grwpiau gwirfoddol – Archwilio datblygiad gweithgarwch gwirfoddolwyr
- 5.3 Fforwm Mynediad Lleol

Bydd yr amcanion hyn yn cael eu dadansoddi ymhellach drwy gynlluniau cyflawni blynyddol y byddwn yn eu paratoi. Bydd y Cynlluniau Cyflawni yn cynnwys targedau CAMPUS, a fydd yn ffurfio sylfaen yr adroddiad blynyddol. Bydd yr adroddiad blynyddol hwn ar gael ar wefan yr Awdurdod.

Er y cydnabyddir bod y cynllun hwn yn fwy realistig na'r dogfennau blaenorol, mae'n canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei gyflawni mewn gwirionedd o ystyried y pwysau ariannol parhaus a'r pwysau a deimlir wrth i elfennau gystadlu am adnoddau. Mae CBSC yn parhau i fod yn uchelgeisiol ac yn cydnabod ar bob lefel drwy'r Awdurdod cyfan y dylid cynnal mynediad at fannau agored cyhoeddus a rheoli'r rhwydwaith hawliau tramwy yn gadarn. Gall rheolaeth gadarnhaol o'r rhwydwaith gyfrannu tuag at raglen Ffyniant i Bawb Llywodraeth Cymru ac at ein dyletswyddau economaidd-gymdeithasol ehangach drwy rinwedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

1 Cyflwyniad

1.1 Cylch Gorchwyl

1.1.1 Croeso i Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2018-2028.

Mae'r ddogfen hon a'r cynllun gweithredu yn nodi sut y byddwn yn parhau i wella mynediad at ein rhwydwaith o lwybrau troed, llwybrau ceffylau, cilffyrdd a mannau agored ar gyfer pobl Conwy a'r rhai sy'n ymweld â'n sir.

Bydd y Cynllun hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol gydag ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal yn 2028 i baratoi drafft pellach erbyn 2030.

1.1.2 Beth yw Cynllun Gwella Hawliau Tramwy?

Dan ddarpariaeth adran 60(1) Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000) (DCGHT), roedd yn ofynnol i bob awdurdod priffyrdd lleol gyhoeddi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) ar gyfer ei holl ardal o fewn pum mlynedd i gyflwyno'r ddeddf. Roedd gofyn i Awdurdodau, dan isadran (2), asesu i ba raddau yr oedd yr hawliau tramwy lleol yn diwallu anghenion presennol a dyfodol y cyhoedd; y cyfleoedd y mae'r hawliau tramwy lleol yn eu cynnig (yn benodol y llwybrau troed, llwybrau beicio, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig) ar gyfer ymarfer corff a mathau eraill o adloniant awyr agored a mwynhad o'u hardal, a pha mor hygyrch yw'r hawliau tramwy lleol i unigolion dall neu rannol ddall ac eraill gyda phroblemau symudedd.

Mae adran 60(5) yn diffinio 'hawliau tramwy lleol' fel llwybrau cyhoeddus, llwybrau beicio, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig, ynghyd â'r ffyrdd a nodir mewn mapiau a datganiadau diffiniol fel cilffyrdd cyfyngedig a chilffyrdd sy'n agored i unrhyw draffig o fewn ardal pob awdurdod priffyrdd. Mae llwybrau beicio gyda neu heb hawl tramwy ar droed ar wahân i rai ar neu wrth ymyl priffordd sy'n cynnwys lôn gerbyd ag wyneb caled yn rhan o gwmpas CGHT.

Mae Adran 60(1)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw CGHT gynnwys datganiad o'r camau gweithredu y mae'r awdurdod priffyrdd lleol yn bwriadu eu cymryd i reoli hawliau tramwy lleol, ac ar gyfer sicrhau gwell rhwydwaith o hawliau tramwy lleol, gan gyfeirio'n benodol at y materion a nodwyd yn yr asesiad.

Dan adran 60(3) a (4) y Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol gynnal asesiad newydd, adolygu eu CGHT a phenderfynu a ddylid ei ddiwygio ai peidio ddim mwy na deng mlynedd ar ôl cyhoeddi eu cynllun blaenorol. Er nad yw'n ofyniad statudol, disgwylir y bydd mwyafrif y cynlluniau diwygiedig hefyd yn cael eu cyhoeddi o fewn y terfyn amser 10 mlynedd. Disgwylir y bydd y rhai sydd heb eu gorffen o fewn 10 mlynedd yn cael eu cyhoeddi ddim mwy na 12 mis o'r penderfyniad i'w diwygio. Yng Nghymru, mae hyn yn golygu y bydd disgwyl i gynlluniau diwygiedig gael eu cyhoeddi rhwng 2017 a 2019; er bod croeso i awdurdodau eu cynhyrchu yn gynt os oes modd. Ar ôl cwblhau'r asesiad newydd, mae'r Ddeddf yn caniatáu i awdurdodau benderfynu a oes angen diweddarau eu cynllun, ac mae'n rhaid iddynt gyhoeddi adroddiad yn nodi eu penderfyniad a'r rhesymau dros hynny. Ond, o ystyried y newidiadau sylweddol mewn deddfwriaeth a'r adnoddau sydd ar gael, rhagwelir y bydd yr holl awdurdodau yng Nghymru angen cynllun diwygiedig.

1.2 Y CGHT hwn

Mae'r Cynllun hwn wedi'i gynhyrchu yn dilyn cyfres o asesiadau o'n cynllun blaenorol ac o ba mor briodol y mae'n cael ei ystyried 10 mlynedd ar ôl ei gyhoeddi.

Mae'r Cynllun hwn yn cynnwys Datganiad Gweithredu newydd.

Mae'r Datganiad Gweithredu'n seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd yn yr Asesiadau sydd wedi'u cynnwys fel atodiadau i'r Cynllun hwn. Mae'n rhaid i'r rhan hon o'r CGHT hefyd nodi cynigion yr Awdurdod ar gyfer camau gweithredu i wella'r rhwydwaith dros gyfnod oes 10 mlynedd y CGHT. Mae'r Datganiad Gweithredu sy'n cael ei gyflwyno'n awr yn realistig (yn hytrach na'n uchelgeisiol), ac yn ceisio cyflawni goblygiadau statudol a diwallu anghenion y cyhoedd mor effeithiol ag y bo modd yng nghyd-destun y cyfyngiadau ariannol sylweddol.

Bydd Cynlluniau Cyflawni'n cael eu hysgrifennu gyda mewnbwn gan Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych (CEDLAF). Bydd y Cynlluniau Cyflawni blynyddol yn gosod targedau i weithio tuag at bob amcan a nodwyd yn y CGHT.


2 Cefndir Conwy a phroses y CGHT

2.1 Lleoliad

Mae Bwrdeistref Sirol Conwy wedi'i leoli yng Ngogledd Cymru ac mae'n ardal o 113,000 hectar. Mae wedi'i leoli rhwng Gwynedd a Sir Ddinbych.

Mae'r trefi strategol allweddol yn cynnwys; Llandudno, Bae Colwyn, Conwy, Cyffordd Llandudno ac Abergele yng ngogledd y sir, a Llanrwst a Betws y Coed yn ne'r sir.

Mae Bwrdeistref Sirol Conwy yn ardal ac iddi dirwedd eithriadol sy'n amrywio o draethau tywodlyd a phentiroedd helaeth i ddyffrynnoedd cysgodol, rhostiroedd agored a mynyddoedd geirwon. Mae tua 38% o'r sir o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.



Ffigur 1 Ffiniau Awdurdodau Lleol yng Nghymru


2.2 Pobl Conwy

Yn ôl cyfrifiad 2011, mae gan Conwy boblogaeth o 115,228 gyda 85% o'r boblogaeth yn byw ar hyd y llain arfordirol. Amcangyfrifir bod y ffigur wedi cynyddu i 116,550 erbyn 30 Mehefin 2016 (ONS).

Mae rhaniad cymharol gyfartal o ddynion a menywod yn byw yng Nghonwy. Yn 2011 roedd 48% (55,749) yn ddynion a 52% yn fenywod (Cyfrifiad 2011). Mae ystadegau allweddol o Gyfrifiad 2011 yn adrodd bod pobl ifanc (0-15) yn cyfrif am 16.6% o'r boblogaeth. Mae hyn yn cymharu â ffigur Cymru gyfan o 18.2%, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru a Lloegr, sef 18.9. Mae'r unigolion rhwng 16 a 64 oed yn cyfrif am 59% o'r boblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy ac mae'r rhai sy'n 65 oed ac yn hŷn yn cyfrif am 24.4% o boblogaeth y Sir, sy'n llawer uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 18.4% a chyfartaledd Cymru a Lloegr o 16.4.

Mae'r gyfran uchel o bobl hŷn yn ein poblogaeth hefyd yn golygu fod y gyfran o blant (0-15 oed) a thrigolion oedran gweithio (16-65 oed) yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Yn 2011 roedd 67,940 o bobl o oedran gweithio (16-64) ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Mae hyn yn 59% o'r boblogaeth, o gymharu â 63.5% yng Nghymru a 64.7% yng Nghymru a Lloegr.

Mae deall ein demograffeg yn ein helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae Conwy'n gyrchfan i dwristiaid ac felly mae'n rhaid i ni ystyried cynnydd sylweddol o ran pobl yn ystod y tymhorau prysur.




Ffigur 2 Cymariaethau Oed Conwy, Cymru a Lloegr

2.3 Rhwydwaith Hawliau Tramwy Sir Conwy

Mae gan Conwy rwydwaith o 1,600km o lwybrau troed, 98km o lwybrau ceffylau, 21km o gilffyrdd cyfyngedig a 16km o gilffyrdd, fel y dangosir yn y cynllun isod. Mae 600km o'r rhwydwaith hwn o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae'r rhwydwaith eang hwn o Hawliau Tramwy yn cyfrannu at anghenion iechyd a lles cymunedau lleol ac mae llwybrau pellteroedd hir fel llwybr Gogledd Cymru yn annog twristiaeth i'r ardal a'r buddion economaidd sy'n deillio o hynny.



Ffigur 3 Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yng Nghonwy


Mae'r llinellau pinc ar y cynllun yn nodi rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus, mae'r glas yn dangos y llwybrau ceffylau a'r brown a'r coch yn dangos yr ychydig o gilffyrdd cyfyngedig a heb gyfyngiad, yn y drefn honno.

I gael gwybodaeth fwy manwl, dilynwch y ddolen i'n gwefan.

[Hawliau Tramwy Cyhoeddus - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy](#)

2.4 Methodoleg

Darparodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol er mwyn adolygu'r cynllun presennol, ac yna roedd pob Awdurdod Lleol yn penderfynu a oedd angen cynllun newydd. Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru siart lif ac amserlen ar gyfer y broses (gweler isod).



Ffigur 4 Siart Ilif ar gyfer adolygu CGHT

1. Cynllunio ar gyfer adolygiad > Amlinelliad ac amserlen, Ymgynghoriad cychwynnol
2. Cynnal asesiad > Cynnal asesiad newydd, Gwerthuso'r broses o gyflawni'r Cynllun Gwella blaenorol
3. Adolygu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy blaenorol > Penderfynu diwygio'r Cynllun Gwella neu beidio > **Rhaid** cyrraedd y cam hwn o fewn 10 mlynedd i gyhoeddi'r cynllun blaenorol
4. Cyhoeddi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft > Ymgynghori ar Gynllun Drafft > Dylid caniatáu 12 wythnos ar gyfer sylwadau > Diwygio'r Cynllun Gwella drafft
5. Cyhoeddi'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy > Dylid cyrraedd y cam hwn o fewn 12 mis i benderfynu diwygio neu beidio
6. Adolygu Cynlluniau Cyflawni > Monitro cyflawni a chynnydd yn barhaus > Dylid gwneud hyn o fewn y cyfnod a bennwyd gan yr awdurdod

2.5 Ymgynghori

Roedd cam cychwynnol yr adolygiad yn asesiad desg a oedd yn dadansoddi'r ffeithiau a'r ffigurau o ran beth sydd wedi'i gyflawni o fewn cynllun oes y CGHT blaenorol. Yn ogystal â hynny rydym wedi asesu sut y gallai'r CGHT newydd gyfrannu at amcanion y Cynlluniau Teithio Llesol a Lles, ac mae'r wybodaeth ar gael yn yr atodiadau. Hefyd, fel rhan o waith paratoi'r cynllun hwn, ymgynghorwyd â Grŵp Mynediad Gwirfoddol Conwy i gael gwybod mwy am anghenion defnyddwyr llai abl a sut y gallwn wella mynediad ar eu cyfer (gweler yr atodiadau i gael rhagor o wybodaeth).

Cynhyrchwyd amserlen ar gyfer yr adolygiad a sicrhodd bod y broses yn parhau i symud ar gyflymder rhesymol ac fe roddwyd diweddariadau rheolaidd i Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych (CEDLAF). Roedd CEDLAF yn rhan o'r gwaith o baratoi'r Datganiad Gweithredu. Roedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) hefyd yn rhan o'r broses ymgynghori gan fod y Parc yn cynnwys traean o Sir Conwy.

Tabl 1 Amserlen ar gyfer Adolygiad CGHT Conwy

Cam	Tasg	Dyddiad
1	Cyflawni Asesiadau – cyfarfod â'r grŵp anabledd (Grŵp Mynediad Gwirfoddol Conwy)	Medi 2017
2	Adrodd ar gasgliadau'r asesiad – trosolwg o gyflawniadau'r CGHT cyntaf	Tachwedd 2017
3	Adolygiad o'r CGHT blaenorol	Ionawr 2018
4	Cyhoeddi CGHT Drafft	Mawrth 2019
5	Cyfnod ymgynghori cyhoeddus o dri mis	Mehefin 2019
6	Ystyried unrhyw sylwadau a gwrthwynebiadau ac adrodd ar y rhain	Hydref 2019
7	Adolygu'r CGHT drafft i ystyried unrhyw sylwadau perthnasol y mae'r Cyngor Sir yn eu cefnogi	Ionawr 2020
8	Proses Ddemocrataidd	Ionawr 2021
9	Fformatio a Chyhoeddi'r CGHT	Chwefror / Mawrth 2021
10	Paratoi cynllun cyflawni	Tachwedd 2019

Penderfynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gynhyrchu CGHT newydd gan fod nifer o'r tasgau yn CGHT 2008-2017 bellach wedi'u cwblhau neu ddim yn briodol mwyach.

Cyflawni'r CGHT blaenorol (2008-2017)

2.5.1 Cyffredinol

Roedd CGHT 2008-2017 yn ddogfen uchelgeisiol ac roedd cyflawni'r targedau ynddo yn dibynnu ar gyllid a lefelau staffio ychwanegol. Daeth rhywfaint o gyllid ychwanegol ar ffurf Grant CGHT Llywodraeth Cymru a oedd yn cael ei weinyddu gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) (Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn flaenorol) ar ran Llywodraeth Cymru (LIC). Roedd y cyllid a gafodd Conwy mewn arian grant yn dod i gyfanswm o £550,434.14 dros y cyfnod o 10 mlynedd.

Bu newid yn strwythur y tîm Hawliau Tramwy ar ddechrau'r CGHT cyntaf hwn. Roedd y swyddogaethau arolygu a chynnal a chadw, a gyflawnwyd gan yr Adain Briffyrdd/ Cynnal a Chadw, wedi'u trosglwyddo i dîm Hawliau Tramwy dynodedig. Er gwaethaf y newidiadau i'r strwythur nid oedd yr adnoddau yn ddigon i gynnal system o arolygon rheolaidd ar draws y Sir yn ei chyfanrwydd. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnal arolygon blynyddol ar ein hawliau tramwy o fewn y Parc, sy'n gyfystyr â thua traean o'r rhwydwaith. Yn ogystal â hyn, mae Conwy wedi parhau i gynnal yr arolwg 5% Hawdd eu Defnyddio fel oedd yn arfer bod yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

Mabwysiadwyd system newydd o gofnodi cwynion a chmau gweithredu yn sgil cynhyrchu'r CGHT. Roedd system cronfa ddata ddigidol, Symology, yn ein galluogi i gasglu data yn well o ran nifer y cwynion a wnaed, y gweithredwyd arnynt ac a ddatryswyd o fewn cyfnod penodol.

2.5.2 Map a Datganiad Diffiniol

Cynhyrchwyd Datganiad o Flaenoriaethau ochr yn ochr â'r Llawlyfr Gweithdrefnau, ac roedd y Gofrestr o Geisiadau ar gael ar y wefan. Mae'r wefan wedi'i diweddaru'n ddiweddar ac ail-ddyluniwyd y dudalen i roi rhagor o wybodaeth i ddefnyddwyr.

Cafodd y Map a'r Datganiad Diffiniol eu cydgrynhoi a'u hailgyhoeddi yn 2013, a bydd yn cael ei gydgrynhoi eto yn 2018. Mae diweddaru'r Map Diffiniol hefyd yn golygu bod ein Gorchmynion Digwyddiadau Cyfreithiol yn cael eu prosesu'n brydlon a dim ond 1 sy'n aros i gael ei brosesu ar hyn o bryd. Yn yr un modd, rydym mewn sefyllfa gadarn gyda Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus a Gorchmynion Addasu, gyda 2 a 3 ohonynt yn y camau cyntaf o gael eu prosesu.

Gyda'r lefel o adnoddau sydd ar gael, ni fu modd i ni flaenoriaethu Prosiect Ffyrdd Coll nac Adolygiad o Anghysondebau, ac ni ddechreuwyd y gwaith ar y rhain.

2.5.3 Cynnal a chadw a Gorfodi

Roedd y targedau a osodwyd yn y CGHT yn uchelgeisiol ac yn dibynnu ar gynnydd yn lefelau'r staff a'r adnoddau a gynigiwyd yn y cynllun. Er mwyn sicrhau bod modd cyflawni'r targedau, estynnwyd y terfyn amser o 10 mlynedd y cynllun i 15 mlynedd. Rhagorwyd ar rai o'r targedau megis nifer y camfeydd a osodwyd neu a atgyweiriwyd, gwella wynebau llwybrau a gosod croesfannau ffosydd a phontydd newydd. Mae nifer o faterion yn weddill, fel arwyddion, ffensys a waliau sydd ar goll neu wedi'u difrodi a chroesfannau ffosydd a phontydd diffygiol.

Cynhaliwyd arolwg o tua hanner y rhwydwaith yn 2013-14.

2.5.4 Darpariaethau Mynediad Eraill

Agorwyd Llwybr Arfordir Cymru yn swyddogol ar 5 Mai 2012 rhwng Cas-gwent a Queensferry. Mae'r rhan sy'n mynd drwy Gonwy yn dilyn yr arfordir ac yn cynnig taith gylchol ar draws Mynydd y Dref (Mynydd Conwy). Mae rheolaeth strategol y prosiect yn awr yn nwylo swydd a ariennir gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae gwaith cynnal a chadw ac arolygu'r llwybr yn cael ei gyflawni gan Wardeiniaid Cefn Gwlad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gyda chefnogaeth myfyrwyr ar leoliad, ac yn cael ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru drwy CNC.

Cyflogwyd Swyddog Datblygu ar gontract dros dro i archwilio cyfleoedd mynediad eraill fel tasgau o fewn y CGHT. Archwiliodd y Swyddog Datblygu'r posibilrwydd o weithio gyda grwpiau marchogaeth lleol i gynhyrchu Strategaeth Llwybrau Ceffylau. Fe'i cynhyrchwyd ar ffurf drafft ond gohiriwyd y prosiect oherwydd diffyg adnoddau a diddordeb gan fudd-ddeiliaid, ac ni ddatblygwyd y prosiect.

Mae beicio yn ddiddordeb poblogaidd yng Nghonwy ac yn cynnwys eithafoedd y gamp o feicio fel teulu ar hyd y promenâd arfordirol i rasys beicio mynydd yn y coedwigoedd a'r coetiroedd, a phopeth arall rhwng y ddau begwn hyn.

Fel rhan o brosiect mawr gyda Sir Ddinbych, marchnatwyd y llwybr cylchol yng Nghonwy wledig a gwnaed gwelliannau i gyflwr wyneb y llwybrau. Cynhaliwyd prosiectau llai gan Adain Draffig yr Awdurdod i wella mynediad i ysgolion. Mae'r Adain Draffig yn gweithio ar y Cynllun Teithio Llesol ar hyn o bryd, a fydd yn cyd-fynd ag amcanion y cynllun hwn (gweler Atodiad 6).

Cynhaliwyd sawl prosiect bach yn ystod cyfnod oes y CGHT i wella mynediad i bawb. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i Gonwy ac yn rhan o'r Cynllun hwn.

I gael rhagor o wybodaeth am yr uchod gweler atodiadau 4 a 5.

3 Datganiad Gweithredu

Mae'r Datganiad Gweithredu hwn wedi'i lunio yn ystod cyfnod lle bo adnoddau awdurdodau lleol yn lleihau. Mae'r ansicrwydd o ran cyllidebau dros y 10 mlynedd nesaf a diwedd y grant Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi'i adlewyrchu yn amcanion y cynllun hwn. Bydd mwy o bwyslais ar archwilio cyfleoedd gwirfoddoli i helpu cyflawni gwelliannau realistig. Roedd y camau gweithredu yn y Datganiad Gweithredu cyntaf yn canolbwyntio ar ganlyniadau ein harolwg 100% o'r rhwydwaith a sicrhau bod y llwybrau'n hygyrch. Er ein bod wedi cyflawni cryn dipyn yn ystod y CGHT blaenorol, mae rhagor o waith i'w wneud a bydd angen atebion arloesol i'n galluogi i symud ymlaen â hyn.

Mae'r Datganiad Gweithredu wedi'i drefnu o amgylch 5 amcan, fel a ganlyn:

- Amcan 1 – sicrhau bod y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ar agor ac ar gael i'w ddefnyddio
- Amcan 2 – Darparu Map a Datganiad Diffiniol cyfredol a sicrhau ei fod ar gael i bawb
- Amcan 3 – Darparu rhwydwaith diogel, hygyrch sydd wedi'i gyd-gysylltu'n well ac yn addas ar gyfer pob defnyddiwr.
- Amcan 4 - Hyrwyddo'r rhwydwaith yn well a gwella'r ddealltwriaeth a'r defnydd ohono.
- Amcan 5 – Annog mwy o ymgysylltiad cymunedol wrth reoli hawliau tramwy lleol.



3.1 Amcan 1 – Sicrhau bod y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ar agor ac ar gael i'w ddefnyddio

3.1.1 Arolygon

I baratoi ar gyfer CGHT 2008, cynhaliwyd arolwg 100% o'r rhwydwaith hawliau tramwy. Dechreuwyd arolwg pellach yn 2012 gan ddiweddarau gwybodaeth ar 60% o'r rhwydwaith. Mae Wardeiniaid Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnal arolygon o'r Hawliau Tramwy o fewn eu ffiniau yn rheolaidd (gan eithrio tir CNC). Yng Nghonwy, rydym yn defnyddio myfyrwyr sy'n wardeiniaid dros dro i arolygu 5% o'r rhwydwaith yn flynyddol. Defnyddir y ffigur hwn fel dangosydd perfformiad mewnol. Nod yr Awdurdod yw parhau i gynnal arolygon ar y sail bresennol drwy gydol cyfnod y cynllun, gan ddefnyddio myfyrwyr sy'n wardeiniaid a Wardeiniaid Parc Cenedlaethol.

3.1.2 Arolygu llwybrau a hyrwyddir

Roedd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal arolwg blynyddol o 5% o'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy cyfan ac fe gyflwynwyd y canlyniadau fel Dangosydd Perfformiad Gwerth Gorau Llywodraeth Cymru. Er nad oes gofyniad i gynhyrchu'r ffigurau hyn yn genedlaethol mwyach, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi penderfynu parhau i gynnal yr arolygon hyn fel dangosydd lleol. Mae ein partneriaid, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn cynnal arolygon o'r hawliau tramwy o fewn ffiniau'r Parc. Mae eu wardeiniaid yna'n trefnu bod y gwaith yn cael ei gyflawni neu ei gyflwyno i Gonwy ei unioni. Mae ein llwybrau a hyrwyddir yn cael eu harolygu'n rheolaidd gan fyfyrwyr sy'n wardeiniaid. Mae'r Awdurdod yn ceisio arolygu ein llwybrau a hyrwyddir yn flynyddol drwy gydol cyfnod y cynllun.

3.1.3 Dewisiadau lleiaf cyfyngol

Mae'r dewisiadau lleiaf cyfyngol yn cael eu ffafrio ar gyfer dodrefn newydd neu wrth ddisodli dodrefn fel egwyddor gyffredinol (bydd lleoliad a thirwedd leol yn llywio'r flaenoriaeth ac ymarferoldeb sefyllfaoedd unigol). Ond mae hyn yn dibynnu ar gytundeb perchennog y tir. Mae costau camfeydd a giatiau yn gymharol er y gellir dadlau bod angen llai o waith cynnal a chadw ar gyfer giatiau. Gellid cynnig cymhelliant i annog perchnogion tir i newid i ddewis lleiaf cyfyngol, er y byddai hyn yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael. Mae'r Awdurdod yn ceisio annog perchnogion tir i ddewis y dewisiadau lleiaf cyfyngol pan fo'n briodol, o fewn yr adnoddau sydd ar gael a chyflwr y safle. Dylid ystyried anghenion defnyddwyr anabl a llai abl ar gyfer unrhyw lwybrau newydd.

3.1.4 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Bydd Conwy'n parhau i weithio gyda APCE drwy'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) i gyflawni swyddogaethau cynnal a chadw ar ran yr Awdurdod. Y CLG yw ein cyfraniad i APCE i alluogi'r wardeiniaid i arolygu, archwilio a chyflawni gwaith er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith o fewn eu ffiniau o ansawdd da.

3.1.5 Clirio llystyfiant wyneb

Mae pob ardal o fewn Mannau Agored yn ymgymryd â'u rhaglen clirio llystyfiant eu hunain, gyda llwybrau dethol yn cael eu clirio bob blwyddyn. Mae Cynghorau Tref a Chymuned yn cefnogi hyn drwy glirio llystyfiant yn flynyddol drwy'r Cynllun Cynnal a Chadw Cymunedol, a bydd mwy o gymunedau yn cael eu hannog i gymryd rhan, gan alluogi contractwyr annibynnol lleol i gyflawni'r gwaith. Nod yr Awdurdod yw parhau â'r rhaglen fewnol o glirio llystyfiant drwy gydol cyfnod y cynllun, a bydd yn archwilio'r potensial ar gyfer defnyddio mwy o wirfoddolwyr i helpu gyda'r gwaith llafur dwys.

3.1.6 Cynnal a chadw a Gorfodi

Mae gan yr Awdurdod ymrwymiad cyfreithiol i sicrhau bod pob priffordd yn cael ei chynnal at safon resymol ar gyfer statws y llwybr. Bydd llwybrau troed yn cael eu cynnal at safon addas i gerddwyr, gan ystyried defnyddwyr tebygol a natur y dirwedd. Bydd llwybrau ceffylau yn addas i farchogion, beicwyr a cherddwyr, eto yn ddibynnol ar natur y dirwedd, a bydd seilwaith priodol ar gyfer y categori hwn o ffordd ar hyd y llwybr. Bydd cilffyrdd, cilffyrdd cyfyngedig a 'lonydd gwyrdd' yn cael eu cynnal yn unol â thystiolaeth hanesyddol o ddefnydd, a dim ond pan fydd adnoddau ychwanegol ar gael y byddant yn cael eu gwella. Yn ôl y gyfraith, mae gofyn i ni wneud cyfraniad o 25% i dirfeddianwyr tuag at waith cynnal a chadw camfeydd a giatiau, yr ydym yn ei gyflawni ar hyn o bryd drwy ddarparu deunyddiau i'r tirfeddianwyr eu gosod.

Mae'r Awdurdod eisiau gweithio gyda gwirfoddolwyr, grwpiau defnyddwyr a thirfeddianwyr i ddarparu gwasanaeth sy'n cynnal y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus a sicrhau ei fod yn addas i'r diben. Byddwn yn ceisio gweithio mewn modd cydweithredol bob amser, ond byddwn yn arfer pwerau gorfodi, yn enwedig i fynd i'r afael â rhwystrau, pan na ellir dod i gytundeb.

3.2 Amcan 2 – Darparu Map a Datganiad Diffiniol cyfredol a sicrhau ei fod ar gael i bawb

3.2.1 Cydgrynhoi'r Map

Mae gan yr Awdurdod Fap a Datganiad Diffiniol cyfredol sydd wedi'u hadolygu a'u hailgyhoeddi 4 gwaith ers sefydlu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ym 1996. Cawsant eu cydgrynhoi ddiwethaf yn 2013 a bwriedir gwneud hynny eto yn 2018 fel y cynigwyd yn CGHT 2008. Mae'r Awdurdod yn bwriadu parhau i gydgrynhoi'r Map a'r Datganiad bob 5 mlynedd, gan sicrhau bod partiön â diddordeb yn gweithio gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.

3.2.2 Datganiad o Flaenoriaethau / Polisiâu a Gweithdrefnau

Cynhyrchodd yr Awdurdod Ddatganiad o Flaenoriaethau a Llyfryn Polisiâu a Gweithdrefnau yn ystod blwyddyn gyntaf CGHT 2008. Ers hyn, mae lefelau staff ac adnoddau ariannol wedi gostwng a bydd y ffordd yr ydym yn gweithio'n cael ei adolygu. Felly rydym yn bwriadu adolygu ein blaenoriaethau a'n polisiâu.

3.2.3 Cynnal map digidol ar-lein

Er bod gofyniad cyfreithiol i gadw copi papur o'r Map a'r Datganiad Diffiniol, y disgwyliad yw y dylai'r holl wybodaeth fod ar gael yn ddigidol. Rydym eisoes yn darparu gwybodaeth ar y wefan am hawliau tramwy cyhoeddus a Llwybr Arfordir Gogledd Cymru a gellid darparu mwy o wybodaeth i helpu pobl gynllunio eu teithiau.

Mae'r Awdurdod yn dymuno archwilio'r potensial i ddatblygu hyn.

3.3 Amcan 3 – Darparu rhwydwaith diogel, hygyrch sydd wedi'i gyd-gysylltu'n well ac yn addas ar gyfer pob defnyddiwr.

Mae'r amcan hwn yn cefnogi'r Deddfau a'r Cynlluniau canlynol:

- Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2017-2022

3.3.1 Teithio llesol

Mae'r Awdurdod yn ceisio sicrhau bod llwybrau newydd a ychwanegir at y Map a'r Datganiad Diffiniol yn cyd-fynd ag amcanion Deddf Teithio Llesol (Cymru). Mae'r Awdurdod yn ceisio sicrhau bod llwybrau newydd, neu rai sy'n cael eu gwella, yn rhesymegol ac yn dilyn llinellau dymunol, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac wedi'u marcio'n glir.

3.3.2 Llwybrau beicio

Er nad yw llwybrau beicio'n cael eu cofnodi'n uniongyrchol ar y Map a'r Datganiad Diffiniol, mae modd i feicwyr a'r rhai sy'n marchogaeth ddefnyddio llwybrau ceffylau, cilffyrdd cyfyngedig a chilffyrdd. Mae nifer o ymylon ffyrdd sydd o bosib yn addas ar gyfer beicwyr a'r rhai sy'n marchogaeth. Os yw adnoddau'n caniatáu, nod yr Awdurdod yw nodi'r ymylon ffyrdd hyn a phenderfynu a oes cyllid ar gael i'w gwella ar gyfer defnydd cymysg.

3.3.3 Gwelliannau i'r wyneb

Mae'r Awdurdod yn ceisio cynnal wyneb ein hawliau tramwy at safon addas ar gyfer ei statws. Gall hyn fod yn anodd mewn rhai lleoliadau oherwydd erydiad, y dirwedd a'r defnydd. Gallai gwella wyneb y llwybrau fod yn ddrud ac yn aml nid yw ein cyllideb bresennol yn caniatáu cyflawni nifer o brosiectau fel hyn.


3.3.4 Gwella pontydd

Yn dilyn arolygon, efallai y bydd Peirianwyr Strwythurol yn gwneud argymhellion o ran yr angen i atgyweirio pontydd / gosod pontydd newydd. Mewn rhai amgylchiadau bydd angen cau'r llwybr dros dro. Mae'n rhaid i'r wybodaeth hon fod ar gael i'r cyhoedd er mwyn iddynt allu cynllunio eu teithiau gyda'r wybodaeth gywir. Mae'r Awdurdod yn ceisio sicrhau bod gwybodaeth am yr holl llwybrau sydd wedi'u cau dros dro ar gael i'r cyhoedd.

3.3.5 Cysylltiadau gyda Llwybr yr Arfordir

Dylid cadw Llwybr Arfordir Cymru at safon a nodwyd yn y ddogfen 'Safonau Ansawdd ar gyfer Llwybrau Cenedlaethol Cymru a Llwybr Arfordir Cymru'. Ar gyfer 2018/19, mae grant a ariennir 75% ar gael ar gyfer cynnal a chadw Llwybr yr Arfordir a grant 100% ar gyfer ail-alinio.

Mae'r Awdurdod yn ceisio archwilio sut mae'r Llwybr yn cysylltu ac yn darparu budd i ac o gymunedau lleol a llwybrau a hyrwyddir. Er enghraifft, gyda gwybodaeth ar-lein i hyrwyddo sut mae Llwybr yr Arfordir yn cysylltu â Phenmaenmawr fel pentref ac â Llwybr Ucheldir Penmaenmawr, Llwybr Gogledd Cymru, Llwybr y Pererinion, Taith Ucheldir Pensychnant, Teithiau Huw Tom i Rowen a Llanfairfechan.



3.4 Amcan 4 - Hyrwyddo'r rhwydwaith yn well a gwella'r ddealltwriaeth a'r defnydd ohono

Mae'r amcan hwn yn cefnogi'r Deddfau a'r Cynlluniau canlynol:

- Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2006
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru

3.4.1 Gwella gwybodaeth wedi'i thargedu ar y rhyngrwyd

Yn dilyn ymgynghoriadau gyda Grŵp Mynediad Conwy, hysbyswyd yr Awdurdod y byddai mwy o wybodaeth benodol am lwybrau yn hynod fuddiol i ddefnyddwyr sydd ag anawsterau symud. Gallai'r wybodaeth hon eu helpu i benderfynu a yw'r llwybr yn hygyrch iddynt a'u hanghenion. Nid oes gennym gofnod o lwybrau sy'n nodi'r graddiant na'r cyfyngiadau ar hyn o bryd. Mae'r Awdurdod yn ceisio datblygu gwybodaeth o'r fath am lwybrau a hyrwyddir yng Nghonwy dros gyfnod y cynllun.

3.4.2 Hyrwyddo teithiau cerdded a gwyliau

Sefydlwyd Wythnos Gerdded Conwy yn 2003 ac fe dyfodd yn sylweddol dros y blynyddoedd wedi hynny. Yn 2012, sefydlwyd grŵp arweinwyr cerdded gwirfoddol Cerdded Conwy Walks (www.cerddedconwy.org) i ddisodli Wythnos Gerdded Conwy, er mwyn diwallu'r galw cynyddol am deithiau cerdded ac i leoli'r prosiect yn y gymuned a'i wneud yn fwy cynaliadwy. Mae'r grŵp bellach yn cynnig penwythnosau cerdded drwy gydol y flwyddyn, yn cynnig hyfforddiant i fod yn arweinwyr teithiau cerdded ac yn cael ei gefnogi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae Cerdded Conwy Walks hefyd wedi helpu sefydlu Gŵyl Gerdded Trefriw sy'n llwyddiannus iawn ac yn gweithio ar gysylltiadau cryfach gyda theithiau cerdded iechyd a buddion cerdded ar gyfer iechyd meddwl. Mae'r grŵp yn barod i helpu a gweithio ar brosiectau ar gyfer y dyfodol. Mae'r Awdurdod yn ceisio cefnogi a hwyluso sefydliadau cerdded gwirfoddol sy'n gweithio yng Nghonwy.

3.5 Amcan 5 – Annog mwy o ymgysylltiad cymunedol wrth reoli hawliau tramwy lleol

Mae'r amcan hwn yn cefnogi'r Deddfau a'r Cynlluniau canlynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru
- Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2017-2022
- Un Conwy
- Strategaeth Hamdden SMPA

3.5.1 Cynllun Cynnal a Chadw Cymunedol

Mae llwyddiant y Cynllun Cynnal a Chadw Cymunedol yn amrywio ar draws y sir. Mae rhai Cynghorau Cymuned / Tref yn ymroi'n llwyr ond cyfyngedig yw ymgysylltiad eraill. Mae'r diddordeb i'w weld yn dibynnu ar unigolion allweddol â diddordeb yn y gymuned leol. Nid yw mwyafrif y Cynghorau wedi cofrestru ar gyfer y cynllun. Mae'r cynllun yn galluogi'r Cynghorau i flaenoriaethu mân waith yn eu cymuned a datrys materion ar lefel leol, gan dderbyn ad-daliad am y gwaith a wnaed. Byddai mwy o ymgysylltiad yn y cynllun yn galluogi CBSC i ganolbwyntio ar faterion mwy. Mae'r Awdurdod yn bwriadu hyrwyddo'r Cynllun Cynnal a Chadw Cymunedol i'r Cynghorau Tref a Chymuned

3.5.2 Grwpiau gwirfoddol

Ar hyn o bryd, mae gan Gonwy un grŵp gwirfoddol sy'n cyflawni gwaith ar y rhwydwaith Hawliau Tramwy. Ffurfiwyd y grŵp hwn fel gweithgor gan Gerddwyr Dyffryn Conwy. Maent wedi cyflawni gwaith rhagorol megis clirio llystyfiant, gosod camfeydd a grisiau a gosod cyfeirbyst. Mae hyn yn faes arbenigedd y dylid ei annog a'i wella dros y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r Awdurdod yn ceisio archwilio sut y gellir annog y defnydd o wirfoddolwyr a'u datblygu mewn modd sy'n cefnogi cyflawniad y CGHT.

3.5.3 Fforymau Mynediad Lleol

Mae 2 Fforwm Mynediad Lleol ym Mwrdeistref Sirol Conwy, sef Fforwm Mynediad Lleol Gogledd Eryri ar gyfer gorllewin y sir (yr ardal o fewn Parc Cenedlaethol Eryri) ac mae gweddill yr ardal yn rhan o Fforwm Mynediad Lleol ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych. Mae'r Fforymau hyn yn darparu cyngor annibynnol ar faterion hamdden awyr agored, ac mae eu haelodaeth yn cynnwys ystod o ddefnyddwyr a pherchnogion tir. Roedd y Fforwm yn allweddol yn natblygiad y CGHT gwreiddiol ac fe ymgynghorwyd yn helaeth â'r Fforwm drwy gydol y broses. Yn yr un modd â gyda'r Cynllun diwygiedig, mae aelodau'r Fforymau Mynediad wedi cyflwyno sylwadau ar y cynllun drafft, a byddant yn allweddol o ran y gwaith o baratoi cynlluniau cyflawni blynyddol.

4 Y camau nesaf

Y cam nesaf yw penderfynu pa gamau i'w cymryd i gyflawni'r amcanion. Byddwn yn gwneud hyn drwy gynlluniau cyflawni blynyddol.

Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu hysgrifennu yn unol â'r Canllawiau Statudol a gyda chynghor ac arweiniad gan Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych (CEDLAF) a Fforwm Mynediad Lleol Gogledd Eryri (NSLAF). Mae'r fforymau hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau amrywiol â diddordeb fel perchnogion tir, cerddwyr, marchogwyr a beicwyr o Gonwy ac awdurdodau cyfagos Gwynedd a Sir Ddinbych.

Bydd y grwpiau hyn hefyd yn helpu sicrhau y gall pobl mewn cymunedau barhau i gyfrannu at benderfyniadau ac y gwrandewir ar eu barn.

5 Adolygiadau ac Adroddiadau

Bydd yr Awdurdod yn adolygu cynnydd pob amcan bob blwyddyn ac yn cynhyrchu adroddiad blynyddol a fydd ar gael ar y wefan i ddangos cynnydd. Mae templed arfaethedig ar gyfer yr adroddiad ar y dudalen ganlynol.

6 Adrodd ar Gynnydd

Bob blwyddyn bydd yr Awdurdod yn cynhyrchu adroddiad yn nodi pa gynnydd a wnaed ar bob tasg.

6.1 Amcan 1 – Sicrhau bod y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ar agor ac ar gael i'w ddefnyddio

Rhif y dasg	Enw'r dasg	Cam	Sylwadau
1.1	Arolygon		
1.2	Dewisiadau lleiaf cyfyngol		
1.3	Arolygu llwybrau a hyrwyddir		
1.4	Clirio llystyfiant wyneb		

6.2 Amcan 2 – Darparu Map a Datganiad Diffiniol cyfredol a sicrhau ei fod ar gael i bawb

Rhif y dasg	Enw'r dasg	Cam	Sylwadau
2.1	Cydgrynhoi'r map		
2.2	Datganiad blaenoriaethau		
2.3	Cynnal map digidol ar-lein (adrodd ar nifer y newidiadau bob blwyddyn)		

6.3 Amcan 3 – Darparu rhwydwaith diogel, hygyrch sydd wedi'i gyd-gysylltu'n well ac yn addas ar gyfer pob defnyddiwr

Rhif y dasg	Enw'r dasg	Cam	Sylwadau
3.1	Teithio llesol		
3.2	Llwybrau beicio		
3.3	Gwella wyneb llwybrau		
3.4	Gwella pontydd		
3.5	Cysylltiadau â Llwybr yr Arfordir		

6.4 Amcan 4 - Hyrwyddo'r rhwydwaith yn well a gwella'r ddealltwriaeth a'r defnydd ohono

Rhif y dasg	Enw'r dasg	Cam	Sylwadau
4.1	Gwella gwybodaeth wedi'i thargedu ar y rhyngrwyd		
4.2	Hyrwyddo teithiau cerdded a gwyliau		


6.5 Amcan 5 – Annog mwy o ymgysylltiad cymunedol wrth reoli hawliau tramwy lleol

Rhif y dasg	Enw'r dasg	Cam	Sylwadau
5.1	Cynllun Cynnal a Chadw Cymunedol		
5.2	Grwpiau gwirfoddol		

7 Atodiadau

7.1 ANGHENION Y PRESENNOL A'R DYFODOL

Ar hyn o bryd mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy 1600km o lwybrau troed, 98km o lwybrau ceffylau, 21km o gilffyrdd cyfyngedig a 16km o gilffyrdd o fewn ei ffiniau. Mae'r llwybrau hyn wedi'u cofnodi yn y Map a'r Datganiad Diffiniol.



Ffigur 5 Categori Hawliau Tramwy Cyhoeddus yng Nghonwy

Mae'n bosib fod nifer o lwybrau eraill y mae'r cyhoedd yn eu defnyddio nad oes gennym gofnod ohonynt ac, ar gais, caiff y rhain eu harchwilio drwy'r broses Gorchymyn Addasu. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) wrthi'n delio ag un Gorchymyn Addasu Map Diffiniol, gydag un arall yn aros i gael ei brosesu.

Mae'r rhwydwaith enfawr o lwybrau troed yn yr ardal hon yn adlewyrchiad o'r wybodaeth o Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014 a nododd mai cerdded yw'r dull mwyaf poblogaidd o gael mynediad. Nid oedd gyrru oddi ar y ffordd a marchogaeth mor boblogaidd ymysg y rhai a atebodd yr arolwg.

Mae'r 97km o Lwybr Arfordir Cymru (sy'n defnyddio llwybrau troed a phromenadau presennol) o fewn Conwy yn bennaf ar gyfer cerddwyr, gyda rhannau hefyd yn addas i feicwyr. Mae'r gwyliau a rhaglenni cerdded a gefnogir gan CBSC wedi bod ar gyfer cerddwyr yn bennaf, yn yr un modd â'r wybodaeth ar gyfer ymweld â Gwarchodfeydd Natur Lleol.

Mae'r rhwydwaith datgymalog o lwybrau ceffylau, cilffyrdd a chilffyrdd cyfyngedig yn ei gwneud yn anodd creu llwybrau cylchol ar gyfer grwpiau diddordeb eraill heb achosi gwariant sylweddol.

Sefydlwyd prosiect ar ôl cyhoeddi'r CGHT presennol i geisio gwella'r rhwydwaith marchogaeth presennol, ond daeth y prosiect i ben oherwydd gostyngiad mewn diddordeb gan y grwpiau defnyddwyr a diffyg capasiti gan swyddogion.

Mae gyrru oddi ar y ffordd yn dod yn fwy poblogaidd yng Nghonwy fel y dangoswyd gan y cynnydd mewn ceisiadau am wybodaeth gan grwpiau defnyddwyr yn yr ardal. Mae defnydd cerbydau oddi ar y ffordd wedi'i gyfyngu i 16km o gilffyrdd, ynghyd â 107km o ffyrdd di-ddosbarth a elwir yn 'lonydd gwyrdd'. Mae Conwy a'r APCE yn parhau i weithio gyda'r grwpiau defnyddwyr i annog cyfradd uwch o hunangymorth o ran cynnal a chadw a gwelliannau.

Wrth symud ymlaen, mae'n briodol bod Conwy'n cydnabod ei ddemograffeg o ran poblogaeth a bod y cynllun yn ceisio annog mwy o fynediad ar gyfer pobl hŷn a'r rhai gydag anableddau.

Yn ôl arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2015, roedd bron i 1/3 o drigolion Conwy dros 65 oed. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r DU.

Mae nifer yr unigolion sydd wedi'u cofnodi fel rhai gyda salwch cyfyngus hirdymor yn ystod cyfrifiad 2011 yng Nghonwy yn 13,896. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys salwch oherwydd iechyd, oedran neu anabledd ac yn amrywio o gyfyngu gweithgareddau dyddiol yn sylweddol i beidio â chyfyngu gweithgareddau dyddiol o gwbl. Mae'r tabl isod yn dangos sut mae hyn yn cymharu gyda Chymru a gyda ffigurau Cymru a Lloegr wedi'u cyfuno.


		Conwy	Cymru	Cymru a Lloegr
Pawb		115,228	3,063,456	56,075,912
Cyfyngu'n helaeth ar weithgareddau dydd i ddydd	13,896	12.1%	11.9%	8.5%
Cyfyngu ychydig ar weithgareddau dydd i ddydd	14,019	12.2%	10.8%	9.4%
Ddim yn cyfyngu ar weithgareddau dydd i ddydd	87,313	75.8%	77.3%	82.1%

Mae'r ffigurau hyn yn bwysig wrth ddadansoddi Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014, a gwelwyd mai'r rhwystrau presennol sy'n atal pobl rhag mwynhau'r awyr agored yw anabledd corfforol (29%), problemau iechyd (21%), henaint (14%) a diffyg amser (13%).

Nododd yr arolwg mai'r mannau mwyaf poblogaidd i ymweld â nhw oedd pentrefi (80%), parciau (77%) a thraethau (77%). Y lleoliadau llai poblogaidd oedd bryniau / mynyddoedd / rhostiroedd (66%), tir fferm (56%) a thir arfordirol (54%), ond mewn arolwg ar gyfer Cymru gyfan ni fyddai'r lleoliadau hyn ar gael i'r holl ymatebwyr. Mae Llwybr Arfordir Cymru sy'n croesi ffin ogleddol y sir yn boblogaidd iawn gyda phobl leol a thwristiaid ac mae cysylltiadau o'r Llwybr i bentrefi a thraethau.

7.2 CYFLEOEDD AR GYFER YMARFER CORFF A HAMDDEN

Mae gan Gonwy rwydwaith o 16,000km o lwybrau troed, 98km o lwybrau ceffylau, 21km o gilffyrdd cyfyngedig a 16km o gilffyrdd, fel y dangosir yn y cynllun isod.



Ffigur 6 Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yng Nghonwy

Mae'r llinellau pinc ar y cynllun yn dangos y rhwydwaith o lwybrau troed cyhoeddus, mae'r glas yn dangos y llwybrau ceffylau a'r brown a'r coch yn dangos yr ychydig o gilffyrdd cyfyngedig a heb gyfyngiad, yn y drefn honno.

Mae'n amlwg bod llawer mwy o gyfleoedd i gerddwyr sy'n adlewyrchu'r ganran uchel o ddefnyddwyr a nodwyd yn Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014 (dywedodd 85% o'r rhai a arolygwyd mai cerdded oedd y prif weithgaredd). Mae llai o ddarpariaeth ar gael ar gyfer marchogaeth, a gofnododd lefel weithgarwch o 3%, ac mae gyrru oddi ar y ffordd wedi cynyddu ychydig i 5% rhwng arolwg 2011 ac arolwg 2014.

Efallai bod y ffigur gyrru oddi ar y ffordd yn gamarweiniol gan ei bod yn ymddangos bod y grwpiau defnyddwyr hyn yn tueddu i groesi'r ffin o Loegr i gymryd rhan yn y gweithgaredd ac nad yw eu data'n cael eu casglu yn arolwg Cymru.

Mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael eu defnyddio ar gyfer ymarfer corff a hamdden fel ei gilydd, gyda phob llwybr yn werthfawr mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, mae Llwybr Gogledd Cymru a Llwybr Arfordir Cymru yn croesi mewn mannau ac yn mynd ar hyd ffin

ogleddol y sir, a chânt eu hyrwyddo fel llwybrau troed pellter hir. Ond mae rhannau mawr o'r llwybrau, yn enwedig ar Lwybr Arfordir Cymru ar gael i feicwyr ac mae rhannau llai yn cael eu defnyddio i fynd at siopau, ysgolion ac atyniadau i dwristiaid. Mae Llwybr Pererinion Gogledd Cymru'n croesi'r ddau lwybr uchod ac hefyd yn llwybr pellter hir rhwng Dinas Basing ac Ynys Enlli. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n hyrwyddo llwybrau byrrach drwy'r sir, gan gynnwys Llwybr Hiraethog a Llwybr Huw Tom.

Ymarfer corff

At ddibenion y ddogfen hon, diffinnir ymarfer corff fel gweithgarwch corfforol i wella neu gynnal iechyd a ffithrwydd.

O'r rhai a holwyd yn Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014, nododd 30% yr hoffent gerdded yn amlach a dangosodd 8% ddiddordeb mewn mwy o feicio oddi ar y ffordd.

Ymarfer corff oedd y prif reswm dros ddefnyddio'r ardaloedd awyr agored yn ôl arolwg 2014.

Mae cerdded yn ffordd syml, hawdd ac am ddim o fod yn fwy egniol ac yn cael ei hyrwyddo gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy rôl weithredol mewn annog hyn, gan hysbysebu Teithiau Cerdded llawn hwyl dan arweiniad arweinydd cerdded profiadol. Mae'r llwybrau yn cymryd llai nag awr i'w cwblhau ac ar gael i bobl o bob lefel ffithrwydd. Yn ôl Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014, y rhai sydd lleiaf tebygol o ddefnyddio hawliau tramwy cyhoeddus yw rhai gyda phroblemau iechyd hirdymor neu anabledau.

Mae'r grŵp cerdded cymunedol Cerdded Conwy Walks (gyda chymorth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) yn cynnig hyfforddiant i arweinwyr gwirfoddol gynnal teithiau cerdded misol y gall unrhyw un ymuno â nhw. Mae buddion cymdeithasol, corfforol ac iechyd meddwl cerdded ar gyfer yr arweinwyr a'r cerddwyr yn amlwg gan fod y teithiau cerdded mor boblogaidd. Mae'r grŵp yn ystyried datblygu cysylltiadau gyda grwpiau Iechyd Meddwl fel Mind er mwyn i fwy o bobl gael cyfle i fwynhau buddion cerdded.

Hamdden

At ddibenion y ddogfen hon diffinnir hamdden fel gweithgareddau hamdden at ddibenion mwynhad neu bleser.

Mae Conwy'n gyrchfan i dwristiaid sy'n denu pobl ar gyfer ystod o weithgareddau, o feicio mynydd, cerdded ceunentydd, canŵio, gwyllo bywyd gwyllt a gweithgareddau oddi ar y ffordd. Mae Conwy'n cynnwys ardaloedd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, lleoliadau SoDdGA dynodedig ynghyd â Pharc Gwledig y Gogarth a sawl Gwarchodfa Natur Leol. Gyda 73km o arfordir a 13 traeth, mae Conwy hefyd yn boblogaidd gyda'r rhai sy'n hoff o chwaraeon dŵr ac ymweld â'r traeth.

Nododd Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014 mai coetiroedd, parciau a thraethau oedd y lleoliadau mwyaf poblogaidd, gyda choetiroedd a thraethau yn fwyfwy poblogaidd ers yr arolwg blaenorol yn 2011.

7.2.1 Grŵp Mynediad Conwy

Nododd Grŵp Mynediad Conwy, sy'n cynrychioli trigolion gyda phroblemau iechyd hirdymor neu anableddau yn y sir, bod safon yr hawliau tramwy cyhoeddus yn wael. Maent yn awgrymu bod diffyg gwaith cynnal a chadw a chyflwr gwael yr wynebau yn atal pobl rhag mwynhau cefn gwlad. Canmolodd y grŵp y cyfleusterau a'r amodau mewn parciau lleol ond nodwyd nad oes darpariaeth i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn gael mynediad i'r traeth. Derbyniwyd bod y system amddiffyn rhag llifogydd ar hyd mwyafrif y traethau yn golygu ei bod yn anodd gwella mynediad, ond y gellir gwella'r rhwystrau paneli pren ar y promenadau. Roedd aelodau'r grŵp yn ffafrio teithiau byrrach (yn bennaf oherwydd cyfnod oes batri cadeiriau olwyn).

Y prif welliant yr oedd y grŵp yn ei geisio oedd gwybodaeth am lwybrau y gallant eu defnyddio, y graddiant a chyflwr yr wyneb. Pe bai'r wybodaeth hon ar gael ar y wefan gallai defnyddwyr wneud penderfyniad cytbwys i'w ddefnyddio ai peidio. Dangoswyd fod yna ddiffyg gwybodaeth, gan nad oedd rhai aelodau o'r grŵp yn ymwybodol o'r gwelliannau i lwybrau ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn yn Nhrwyn y Fuwch a Chronfa Ddŵr Alwen.



Ffigur 7 Llwybr hygyrch ar Drwyn y Fuwch



Ffigur 8 Llwybr hygyrch yn Llyn Brenig

7.2.2 Sut all y CGHT helpu?

Y pethau na ellir eu datrys er mwyn gwella cyfranogiad yw diffyg amser pobl a thywydd gwael, ac fe nodwyd y rhain fel y prif rwysrau sy'n atal hamdden awyr agored.

Y meysydd y gellir eu datrys os nodir eu bod yn broblem yw gwella gwybodaeth a seilwaith.

A yw aelodau'r cyhoedd yn gwybod am y gwahanol grwpiau sydd ar gael i'w helpu i ddefnyddio'r awyr agored, fel Teithiau Hwyl a Cherdded Conwy?

Ydyn ni'n sicrhau bod ein gwybodaeth yn hawdd ei deall ac yn hygyrch? Mae taflenni bellach ar gael i'w llwytho oddi ar y wefan, ynghyd â chopi digidol o'r Map Diffiniol.

A yw wynebau'r llwybrau yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol ar gyfer y math o ddefnyddiwr?

A yw'r dodrefn lleiaf cyfyngol yn cael ei ddefnyddio ar y llwybrau?

Ydyn ni'n mynd i'r afael â materion a godir yn brydlon? Mae cyflwyno system adrodd Symology wedi gwella cofnodi a monitro problemau. Gall y cyhoedd bellach roi gwybod am broblemau a nodi'r union leoliad ar y wefan.

A oes cysylltiadau digonol rhwng pentrefi a llwybrau strategol?

A oes unrhyw lwybrau cylchol byr o fewn ardaloedd trefol?

A yw'r llwybrau i ysgolion, parciau a thraethau yn addas ar gyfer teuluoedd ifanc?

Gweithio gyda sefydliadau ac asiantaethau eraill i wella mynediad.

7.3 HYGIRCHEDD Y RHWDWAITH

Wrth baratoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Conwy 2008-17, cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) arolwg 100% o rwydwaith yr hawliau tramwy. Dangosodd hyn mai 21.73% o'r rwydwaith a oedd ar agor ac ar gael ei ddefnyddio, sef y gwaethaf yng Nghymru.

Mae'r tabl isod yn dangos canran y llwybrau o fewn Sir Conwy sy'n 'Hawdd eu defnyddio' yn ôl arolwg blyneddol 5 y cant. Bob blwyddyn, mae detholiad ar hap o lwybrau sy'n cyfrif am o leiaf 5 y cant o gyfanswm hyd y rwydwaith yn cael eu harolygu i benderfynu a oes ganddynt arwyddion a dorefn priodol. Mae'r canlyniadau'n amrywio o 49.3% yn 2008-09 i 63.3% yn 2017-18, i uchafbwynt o 72.4% yn 2013-14.

Oherwydd ailstrwythuro mewnol ac adnoddau cyfyngedig, ni chynhaliwyd arolygon yn 2014 na 2015. Cynhaliodd Wardeiniaid Cefn Gwlad sy'n fyfyrwyr yr arolwg yn 2016-17 a byddant yn parhau i gasglu'r ffigurau hyn yn flynyddol yn y dyfodol agos.

Nid yw'n ofyniad statudol i gynnal yr arolygon hyn mwyach, ond bydd CBSC yn parhau i gasglu'r wybodaeth at ddibenion perfformiad mewnol.

Tabl 2 Ffigurau Dangosyddion Perfformiad ar gyfer Llwybrau Hawdd eu Defnyddio yng Nghonwy

Blwyddyn	Canlyniad
2008-09	49.3%
2009-10	57.0%
2010-11	72.2%
2011-12	71.0%
2012-13	69.4%
2013-14	72.4%
2014-15	Dim arolwg
2015-16	Dim arolwg
2016-17	63.3%
2017-18	86.9%

Ethos y CGHT presennol oedd bod yn fwy rhagweithiol o ran datrys problemau ar y rwydwaith yn hytrach nag ymateb i gwynion yn unig. Roedd y cynllun presennol hefyd yn argymhell cynnydd enfawr o ran adnoddau er mwyn gallu gwireddu dyheadau'r cynllun.

7.4 Dadansoddi CGHT Conwy 2008-2017

Rhif y dasg	Tasg	Cynnydd	CGHT presennol
1.1	Adolygu Strwythur y Tîm Hawliau Tramwy	Cwblhawyd	Angen ei ailysgrifennu i adlewyrchu'r ailstrwythuro mewnol diweddar
1.2	Cynhyrchu Llawlyfr Gweithdrefnau	Cwblhawyd	Angen ei adolygu a'i ddiweddarau.
1.3	Cofnodi ceisiadau i weithredu	Cwblhawyd	Cofnodwyd 1565 cais i weithredu rhwng 2008 a 2017.
1.4	System arolygu reolaidd	Wedi dechrau'n rhannol	Mae APCE yn cynnal arolygon rheolaidd o Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Nid ydym ni.
2.1	Datganiad Blaenoriaethau	Cwblhawyd	Mae'r datganiad o flaenoriaethau wedi'i gymeradwyo ac mae wedi'i gynnwys yn y Llawlyfr Polisiâu a Gweithdrefnau.
2.2	Cofrestr Ceisiadau	Cwblhawyd	Mae cofrestrau ar gael ar-lein ac yn cael eu diweddarau wrth dderbyn ceisiadau newydd
2.3	Clirio'r ôl-groniad o geisiadau	Yn mynd rhagddo	Gorchmynion Addasu Map Diffiniol wedi'u cwblhau 2 1 Atgyfeiriad i'r Arolygiaeth Gynllunio 2016/17
2.4	Clirio'r ôl-groniad o GDC	Cwblhawyd	Nid oes unrhyw ôl-groniad Gwnaed 4 GDC 4 1 Gorchymyn Cadarnhau Nesaf i'w wneud yn 2018
2.5	Adolygu Anghysondebau yn y Map Diffiniol	Heb ddechrau	Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach gyda'r dasg hon.
2.6	Mapiau wedi'u cydgrynhoi	Cwblhawyd	Bydd y Map Diffiniol yn cael ei gydgrynhoi nesaf yn 2018.
2.7	Archwilio ffyrdd coll	Heb ddechrau	Fel y nodwyd yn y CGHT, nid oes blaenoriaeth uchel i'r dasg hon ac mae dechrau'r dasg yn dibynnu ar staff ychwanegol.
2.8	Proses Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus	Yn mynd rhagddo	Dargyfeirio 6 Dileu 1 Creu 9
3.1	Arwyddion Hawliau Tramwy	Yn mynd rhagddo	Roedd 915 arwydd ar goll ac roedd 268 yn ddiffygiol yn arolwg 2005. Nodwyd y byddem yn

Rhif y dasg	Tasg	Cynnydd	CGHT presennol
			gosod 570 o byst terfyn rhwng 2008 a 2017. Gosodwyd 121. Roedd angen gosod pyst newydd yn lle 268 o'r pyst terfyn diffygiol ac fe osodwyd 61 o'r rhain.
3.2	Cyfeirbyst	Yn mynd rhagddo	Ni chofnodwyd nifer penodol o gyfeirbyst yn ystod arolwg 2005. Nid oes gennym gofnod o nifer y cyfeirbyst sydd wedi'u gosod. Mae nifer fawr o ddisgiau cyfeirbyst wedi'u hanfon i drydydd parti.
3.3	Atgyweirio wyneb	Yn mynd rhagddo	Cofnodwyd 108 achos o ddifrod i wyneb llwybrau yn ystod arolwg 2005. Cynhaliwyd 130 gwelliant i wyneb llwybrau Hawliau Tramwy.
3.4	Pontydd mewn cyflwr diogel	Yn mynd rhagddo	Roedd 69 o bontydd ar goll a 137 angen eu hatgyweirio yn arolwg 2005. Nodwyd y byddem yn gosod 16 ac yn atgyweirio 134 o bontydd a chroesfannau ffosydd rhwng 2007-17. Gosodwyd 38 strwythur newydd ac atgyweiriwyd 47.
3.5	Cynnal dodrefn llwybrau	Yn mynd rhagddo	Cofnodwyd 1381 o giatiau wedi torri a 317 o gamfeydd wedi torri. Nodwyd y byddem yn atgyweirio 851 o giatiau a 282 o gamfeydd rhwng 2008 a 2017. Rydym wedi atgyweirio neu ddisodli 286 giât a 342 o gamfeydd yn ystod y cyfnod hwnnw.
3.6	Ôl-groniad o Rwystrau	Yn mynd rhagddo	Cofnodwyd 1529 o rwystrau ffensys / waliau yn ystod arolwg 2005. Cynigiom y byddem yn clirio 944 o'r rhain rhwng 2008 -17. Cliriwyd 228 ohonynt. Cofnodwyd 158 o rwystrau gwrychoedd a niwsans ac fe gliriwyd 145.
4.1	Mynediad i'r arfordir	Yn mynd rhagddo	Dim tasg benodol wedi'i gosod. Mae Llwybr Arfordir Cymru yn 32 milltir ac yn cynnwys 13 milltir o lwybrau mynediad mewndirol drwy Gonwy.
4.2	Gwella Mynediad i Farchogwyr	Yn mynd rhagddo	Datryswyd 85 o gwynion rhwng 2008-17 ar lwybrau ceffylau, cilffyrdd a chilffyrdd cyfyngedig.
4.3	Gwella Mynediad i Feicwyr	Yn mynd rhagddo	Mae prosiect Canolfan Ragoriaeth Beicio rhwng Conwy a Sir Ddinbych wedi'i gwblhau, gan greu llwybr cylchol 52km rhwng Betws-y-coed a Llyn Alwen.
4.4	Gwella mynediad i bawb	Yn mynd rhagddo	Ymgynghoriad a dadansoddiad o'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr i'w gwblhau erbyn 2010-11. Ni chafodd ei gwblhau oherwydd lefelau staffio
4.5	Teithiau tywys a theithiau a hyrwyddwyd	Yn mynd rhagddo	Roedd rhai o'n taflenni teithiau cerdded ar gael ar-lein ac roeddem yn hysbysebu ein digwyddiadau cerdded ar ein gwefan. Mae'r gallu i adrodd am broblemau gyda hawliau tramwy hefyd ar gael ar dudalen fapio ar-lein ar y wefan. Cynigiwyd amserlen o welliannau i ddeunydd presennol a newydd yn disgrifio eu haddasrwydd ar gyfer

Rhif y dasg	Tasg	Cynnydd	CGHT presennol
			unigolion llai abl, ond fe'i nodwyd fel blaenoriaeth isel.

7.5 CYFRANIAD I DEITHIO LLESOL

Daeth Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Tachwedd 2013, gan gyflwyno gofyniad cyfreithiol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i wella cyfleusterau a llwybrau ar gyfer cerddwyr a beicwyr (defnyddwyr heb fodur) yn barhaus mewn aneddiadau gyda phoblogaeth o 2,000 neu fwy mewn ardaloedd adeiledig.

Adeg ysgrifennu'r asesiadau, roedd mapiau llwybrau presennol Bwrdeistref Sirol Conwy wedi derbyn cymeradwyaeth weinidogol ac roedd gwaith paratoi ar gyfer Map Rhwydwaith integredig ar y gweill.

Mae'r Cynllun Teithio Llesol yn dangos dyhead i llwybrau cerdded fod yn:

Gydlynol – Llwybrau hawdd a rhesymegol

Uniongyrchol – dilyn llinellau dyhead

Diogel – di-draffig, pwyntiau ymuno a gadael amlwg, heb unrhyw lystyfiant yn hongian i lawr

Deniadol – dodrefn ac amgylchedd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda

Cyfforddus – wyneb a draenau wedi'u cynnal a'u cadw'n dda

Bu'r Adran Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn gweithio'n agos gydag Adran Draffig yr Awdurdod ar fenter Llwybrau Diogelach i'r Ysgol gan greu llwybrau newydd, neu wella llwybrau presennol, i annog plant a rhieni i gerdded neu feicio i'r ysgol. Mae'r Cynllun Teithio Llesol yn mynd ymhellach drwy hyrwyddo teithio 'drwy ddulliau sy'n fwy llesol' ar gyfer teithio i ac o'r gweithle, sefydliad addysgol neu er mwyn defnyddio gwasanaethau neu gyfleusterau ieuchyd, hamdden neu eraill¹.

Nid yw'r CGHT presennol yn blaenoriaethu llwybrau Teithio Llesol ond gellir mynd i'r afael â hyn mewn cynlluniau yn y dyfodol.

Bydd CGHT diwygiedig yn hyrwyddo mannau ymuno â llwybrau troed a llwybrau ceffylau wedi'u diffinio'n glir ac yn sicrhau bod yr holl gwynion am ddodrefn wedi'u malu a materion wyneb yn cael eu datrys yn brydlon.

¹ Canllawiau Dylunio Llywodraeth Cymru Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

7.5.1 Dyletswyddau a grëwyd gan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Dyletswyddau ar awdurdodau lleol

- S.2 (6) – dyletswydd i ystyried ffactorau a chanllawiau penodol wrth benderfynu a yw llwybr yn addas ar gyfer teithio llesol.
- S.3(1) – dyletswydd i baratoi map o lwybrau presennol, a'i gyflwyno i dderbyn cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.
- S.3(3) – dyletswydd i ymgynghori ar y mapiau o lwybrau presennol.
- S.3(4) – dyletswydd i ystyried canllawiau ar baratoi ac ymgynghori ar y map o lwybrau presennol.
- S.3 (5) – dyletswydd i gyflwyno map o lwybrau presennol o fewn terfyn amser penodol.
- S.3 (6) - dyletswydd i gyflwyno datganiad ac eglurhad o safonau'r llwybrau ar y map o lwybrau presennol i Weinidogion Cymru.
- S.3 (7) – dyletswydd i gyflwyno adroddiad ar y newidiadau yn lefelau defnydd seilwaith teithio llesol pryd bynnag yr ailgyflwynir y map o lwybrau presennol i'w cymeradwyo (perthnasol ar ôl y map cyntaf yn unig).
- S.3 (10)(a)-(c) – dyletswydd i gadw'r map o lwybrau presennol dan adolygiad, a'i ailgyflwyno i'w gymeradwyo bob tro y cyflwynir y map rhwydwaith integredig i'w gymeradwyo.
- S.4(1) – dyletswydd i baratoi map rhwydwaith integredig, a'i gyflwyno i dderbyn cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.
- S.4(3) - dyletswydd i ymgynghori ar y map rhwydwaith integredig.
- S.4 (4) – dyletswydd i ystyried pa mor ddymunol yw teithio llesol wrth baratoi map rhwydwaith integredig.
- S.4(5) – dyletswydd i ystyried canllawiau ar baratoi ac ymgynghori ar y map rhwydwaith integredig.
- S.4 (6) – dyletswydd i gyflwyno map rhwydwaith integredig o fewn terfyn amser penodol.
- S.4 (9)(a)-(c) – dyletswydd i gadw'r map rhwydwaith integredig dan adolygiad, a'i ailgyflwyno i'w gymeradwyo bob 3 blynedd.
- S.5 (1)-(3) – dyletswydd i gyhoeddi mapiau a'r datganiad a'r eglurhad.
- S.5 (2) – dyletswydd i ystyried y canllawiau ar gyhoeddi mapiau.
- S.6 – dyletswydd i ystyried y map rhwydwaith integredig wrth baratoi cynlluniau cludiant lleol.
- S.7(1) – dyletswydd i wella llwybrau a chyfleusterau teithio llesol yn barhaus.
- S.7(2) – dyletswydd i ystyried y canllawiau ar welliant parhaus.
- S.7(3) – dyletswydd i adrodd i Weinidogion Cymru am y costau a ysgwyddir wrth wella'n barhaus.
- S.9 (1) - dyletswydd i gymryd camau rhesymol i wella darpariaeth teithio llesol wrth arfer swyddogaethau penodol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980.
- S.9(2) – dyletswydd i ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr wrth arfer swyddogaethau rheoli traffig penodol.
- S. (10)(1) - dyletswydd i arfer swyddogaethau dan y Ddeddf hon mewn modd sy'n hyrwyddo teithio llesol ac yn sicrhau mwy o seilwaith teithio llesol.
- S.10 (2) – dyletswydd i gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru am yr hyn y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud i gyflawni eu dyletswydd o dan adran 10(1).

7.6 CYFRANIAD AT Y CYNLLUN LLES

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Bydd yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a llunio ymagwedd gydlynol.

Bydd hyn yn ein helpu i greu Cymru yr ydym oll eisiau byw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol.

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych i gynhyrchu Cynllun Lles. Mae'r Cynllun Lles (2018-2023) wedi'i gynhyrchu ar ffurf drafft ac mae'n destun ymgynghoriad (adeg ysgrifennu'r asesiad hwn). Mae'r Asesiad hwn yn seiliedig ar y cynllun drafft.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Conwy a Sir Ddinbych yn cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, CNC, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, y tri gwasanaeth brys a Llywodraeth Cymru, ymysg eraill. Eu tasgau yw paratoi a chyhoeddi asesiad o les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, a pharatoi a chyhoeddi cynllun yn nodi'r amcanion lleol a'r cynigion i'w diwallu.

Hysbyswyd yr asesiad gan ymchwil cenedlaethol a lleol ac adborth gan fusnesau trigolion. Roedd yn nodi cryfderau pobl a chymunedau ynghyd â'r heriau a'r cyfleoedd a wynebier yn awr ac yn y dyfodol.

Gellir ei weld yn <https://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/cy/home/3046-2/>

Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod saith nod y mae'n rhaid i'r holl gynlluniau weithio tuag atynt, sef:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o Gymunedau Cydlynol
- Cymru lle mae diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sydd â chyfrifoldeb byd-eang

Yn ogystal â'r saith nod lles roedd y BGC yn dadansoddi'r adborth o'r asesiad ac yn nodi rhestr o themâu cyffredin. Cwtogwyd y rhestr i dair blaenoriaeth, sef:

1. Pobl - Lles meddyliol da i bobl o bob oed
2. Cymuned - Rhoi grym i gymunedau
3. Lle - Cadernid amgylcheddol

Mae'r Cynllun yn tynnu sylw at rai ffeithiau arwyddocaol a fydd yn berthnasol i hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad at gefn gwlad. Dyma restr o'r rhain:

Amcangyfrifir bod y boblogaeth yn heneiddio gyda mwy o drigolion dros 75 oed a llai o dan 25 oed. Ar hyn o bryd mae chwarter poblogaeth y ddwy sir ar y cyd dros 65 oed.

Mae dros hanner y boblogaeth yn ordew neu dros eu pwysau.

Mae 75% o'r tir yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn amaethyddol a 13.5% yn goetir.

Mae 15 miliwn o bobl yn ymweld â Chonwy neu Sir Ddinbych bob blwyddyn ac mae bron i draean y swyddi o fewn y sector twristiaeth.

Nid oes gan dros 40% o bensiynwyr gar.

Mae gan chwarter y trigolion anghenion iechyd meddwl – gorbryder ac iselder yn bennaf.

Rhwng y 2 sir, mae angen adeiladu 400 o gartrefi newydd bob blwyddyn i ateb y galw.

Bydd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn ystyried y meysydd blaenoriaeth hyn wrth gynllunio'r Cynlluniau Cyflenwi blynyddol.

7.7 CYFRANIAD I GYNLLUNIAU A BLAENORIAETHAU ERAILL

Mae nifer o Ddeddfau, cynlluniau ac arolygon wedi'u cyhoeddi ers cyhoeddi'r CGHT ac mae'r rhain wedi'u hystyried wrth baratoi'r cynllun newydd.

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2006
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Un Conwy
- Strategaeth Hamdden Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

7.7.1 Deddf Cydraddoldeb 2010 (a Chynllun Cydraddoldeb Strategol Conwy 2020-2024)

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn disodli tri darn gwahanol o ddeddfwriaeth cydraddoldeb blaenorol a oedd yn ymdrin â gwahaniaethu: Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975; Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 a Deddf Gwahaniaethu Ar Sail Anabledd 1995. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac mewn cymdeithas ehangach.

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno gofyniad i gyrff cyhoeddus i gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol i sicrhau bod polisïau yn gwbl gynhwysol, gan gael gwared â gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi mabwysiadu'r 6 amcan hirdymor canlynol i atal anghydraddoldeb:

- Amcan 1: Bydd canlyniadau mewn cyrhaeddiad Addysgol a Lles mewn Ysgolion yn gwella
- Amcan 2: Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn gyflogwr cyfle cyfartal a lleihau bylchau cyflog
- Amcan 3: Byddwn yn cymryd camau i wella Safonau Byw pobl sydd dan anfantais oherwydd eu nodweddion a ddiogelir.
- Amcan 4: Byddwn yn gwella canlyniadau Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol
- Amcan 5: Byddwn yn gwella Diogelwch Personol a Mynediad at Gyfiawnder
- Amcan 6: Byddwn yn cynyddu Mynediad at Gyfranogiad a gwella amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau
- Amcan 7: Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol er mwyn nodi'r meysydd allweddol o ran effaith y mae angen mynd i'r afael â nhw o dan bob un o'r 6 amcan arall.

7.7.2 Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014

Comisiynodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) 3 arolwg i'w cyflawni yn 2008, 2011 a 2014 gyda detholiad eang o drigolion yng Nghymru. Roedd yr arolygon yn canolbwyntio ar ymgysylltiad y cyhoedd gyda'r amgylchedd naturiol ac ymweliadau hamdden a wnaed yn y cyfnod hwnnw.

Nododd yr arolygon bod ymweliadau awyr agored yn hynod boblogaidd gyda'r rhai a holwyd (roedd 93% o'r ymatebwyr wedi bod ar o leiaf 1 ymweliad yn ystod y cyfnod perthnasol). Roedd y grŵp oedran dros 75 yn llai tebygol o fynd i'r awyr agored na phobl iau, ac felly hefyd yr ymatebwyr gyda salwch hir dymor neu anabledd. Cofnodwyd amrywiadau rhwng unigolion gyda cherbyd a heb gerbyd ac unigolion ar incwm isel. Roedd pobl mewn ardaloedd difreintiedig a'r rhai heb swydd gyflogedig yn llai tebygol o ddefnyddio hamdden awyr agored.

Cerdded oedd y prif weithgaredd o hyd, er y cofnodwyd gostyngiad bychan rhwng 2011 a 2014. Roedd yn boblogaidd gyda cherddwyr chŵn, perchnogion tai a'r rhai gyda swydd gyflogedig. Nodwyd mai mwynhau golygfeydd neu ymweld ag atyniad oedd y prif reswm am yr ymweliad (70%), gydag ymweld â chae chwarae (46%) a mynd am bicnic (44%) yn dilyn hynny.

Y prif resymau dros gyfranogiad egniol oedd rhedeg (28%), nofio awyr agored (26%), beicio ffordd (24%) a beicio oddi ar y ffordd (17%). Nododd yr arolwg yn 2014 mai mynd i bentrefi a pharciau a thraethau lleol oedd y prif reswm dros fynd i'r awyr agored (80%, 77% a 77% yn y drefn honno). Mae hyn yn adlewyrchu'r canlyniad yn 2011. Y rhesymau lleiaf poblogaidd oedd ymweld â dŵr mewndirol (67%), brynau /mynyddoedd / rhostir (66%) a thir fferm (56%).

Y prif resymau a nodwyd dros beidio ag ymweld â'r awyr agored yn y 12 mis diwethaf oedd anabledd corfforol (29%), problemau iechyd (21%), henaint (14%) a diffyg amser (13%). Roedd y canlyniadau yn wahanol i'r rhai oedd heb ymweld â'r awyr agored yn y 4 wythnos flaenorol, gyda diffyg amser (29%) a thywydd gwael (25%) wedi cael mwy o effaith ar ymweliadau yn y tymor byr. Roedd y canlyniadau hyn yn debyg yn y tri arolwg.

Roedd hyd yr ymweliadau yn llai na thair awr o hyd gan fwyaf, ac eithrio teithiau i fwynhau golygfeydd a mynd am bicnic.

7.7.3 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Datganiadau Ardal

Rhodddwyd pwerau newydd i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) drwy'r Ddeddf i sicrhau rheolaeth gynaliadwy o aer, tir, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella lles Cymru. Rhaid i'r CNC gynhyrchu Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) bob pum mlynedd ynghyd â chynhyrchu Datganiadau Ardal a fydd yn nodi'r gofynion ar gyfer gwella cynaliadwyedd ar lefel genedlaethol a lleol. Adeg ysgrifennu hwn nid oedd unrhyw Ddatganiadau wedi'u paratoi ar gyfer ardal Conwy.

7.7.4 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn nodi cyfres o newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei bod yn deg, yn wydn ac yn galluogi datblygiad. Bydd y cynllun yn gwella'r broses gynllunio i sicrhau'r datblygiad cywir yn y lleoliad cywir.

Mae'r ddeddf yn ymdrin â 5 amcan allweddol:

- Fframwaith mwy modern ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio – mae'r ddeddf yn cyflwyno pwerau i ganiatáu cyflwyno ceisiadau cynllunio'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru mewn amgylchiadau cyfyngedig

- Atgyfnerthu'r dull gweithredu'n seiliedig ar gynllun – mae'r ddeddf yn cyflwyno sylfaen gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol
- Gwella gwydnwch – bydd y ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdodau cynllunio lleol weithio gyda'i gilydd ac i uno awdurdodau cynllunio lleol
- Blaenlwytho a gwella'r system rheoli datblygu - bydd y ddeddf yn cyflwyno gweithdrefn statudol cyn cyflwyno cais ar gyfer categorïau penodol o geisiadau cynllunio
- Galluogi gorfodi ac apeliadau effeithiol – mae'r ddeddf yn galluogi newidiadau i weithdrefnau gorfodi er mwyn sicrhau camau gweithredu prydlon, ystyrlon yn erbyn rhai sy'n torri rheolaeth gynllunio, a chynyddu tryloywder ac effeithlonrwydd y system apeliadau

7.7.5 Cynllun Corfforaethol 2017-2022

Adeg llunio'r adroddiad hwn, mae'r Cynllun Corfforaethol presennol wedi dod i ben ac mae'r cynllun newydd ar ffurf drafft. Mae'r cynllun newydd yn canolbwyntio ar 8 prif thema:

- 1 Sgiliau
- 2 Diogelwch
- 3 Tai
- 4 Iechyd
- 5 Twf
- 6 Yr Amgylchedd
- 7 Diwylliant
- 8 Llais

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn ceisio sicrhau bod pobl Conwy yn cael eu haddysgu ac yn ennill sgiliau ac yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau; mae gwerthfawrogi a gofalu am yr amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol hefyd yn thema allweddol. Bydd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ymwybyddiaeth o anghenion pobl o ran tai priodol a lleihau digartrefedd. Mae annog trigolion i fod yn iachach ac yn fwy egniol yn flaenoriaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf, ynghyd â datblygu economi ffyniannus. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn annog diogelu diwylliant a threftadaeth Cymru a hyrwyddo'r Gymraeg.

7.7.6 Cynllun Rheoli Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri / Cynllun Eryri

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi drafftio cynllun rheoli ar gyfer y Parc Cenedlaethol sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

Fel y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, bydd y Cynllun yn cyflawni amcanion, nodau a blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru. Y prif faterion y bydd y Cynllun Rheoli yn eu hystyried yw:

- Diogelu a gwella cynefinoedd, rhywogaethau ac ecosystemau
- Rhywogaethau goresgynnol, clefydau a llygredd
- Cynefinoedd tameidiog
- Newid hinsawdd a storio carbon
- Diogelu a gwella'r amgylchedd
- Ansawdd dŵr ac aer

- Yr amgylchedd hanesyddol ac adeiledig
- Ennyn diddordeb pobl yn yr amgylchedd
- Talu am wasanaethau ecosystemau
- Ynni gwyrdd, cludiant gwyrdd ac adeiladau gwyrdd
- Defnyddio adnoddau naturiol y Parciau yn gynaliadwy

Mae'r Cynllun yn ceisio swyddogaethau mwy i wirfoddolwyr er mwyn mynd i'r afael ag erydiad ar lwybrau troed a phroblemau mynediad, gan weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â gweithgareddau anghyfreithlon gan rai grwpiau defnyddwyr a chwilio am gyfleoedd i wella iechyd a lles drwy'r amgylchedd naturiol.

Sut all y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gyfrannu?

Tabl 3 Sut mae CGHT Conwy yn cysylltu gyda Chynlluniau eraill

Egwyddorion Allweddol y CGHT	Deddf Cydraddoldeb	Arolwg Hamdden Awyr Agored	Deddf yr Amgylchedd (Cymru)	Deddf Cynllunio (Cymru)	Cynllun Corfforaethol	Cynllun Rheoli APCE (Drafft)
Sicrhau bod y rhwydwaith hawliau tramwy ar agor ac ar gael i'w defnyddio	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Darparu Map a Datganiad diffiniol cyfredol a sicrhau ei fod ar gael i bawb				✓	✓	
Darparu rhwydwaith diogel, hygyrch sydd wedi'i gyd-gysylltu'n well ac yn addas ar gyfer pob defnyddiwr	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Hyrwyddo'r rhwydwaith yn well a gwella'r ddealltwriaeth a'r defnydd ohono	✓	✓		✓	✓	✓
Annog mwy o ymgysylltiad cymunedol wrth reoli hawliau tramwy lleol	✓	✓			✓	✓